# Cymraeg yn Hanfodol – Cefndir

***Yr Alwad***

Mae Cymdeithas yr Iaith yn galw ar y cyrff cyhoeddus hynny sydd yn gwasanaethu ein cymunedau Cymraeg, i gymryd camau pendant ar frys i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn dod yn  hanfodol i'w holl waith. Mae cymryd camau o'r fath yn angenrheidiol os ydym am normaleiddio'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel cyfrwng byw o fewn ein cymunedau. Ni bydd byw ein cymunedau Cymraeg oni ddaw'r Gymraeg yn hanfodol i holl waith y cyrff cyhoeddus gyda chyfieithu i'r Saesneg lle bo anegn rhesymol. Dyma droi'r drefn bresennol o "ddwyieithrwydd" ar ei phen.

***Pa Gymunedau Cymraeg ?***

Ni chredwn y dylid gosod yn ganolog, trwy ymarferiad swyddfa, ddiffiniad o "gymunedau Cymraeg". Galwn ar bob cymuned yng Nghymru i deithio ar hyd *ffordd* tuag at fod yn gymuned Gymraeg lle bo'r Gymraeg yn hanfodol a hynny trwy ewyllys pobl leol. Disgwyliwn y byddai Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd yn dynodi'r rhan fwyaf o siroedd Gwynedd, Môn, Ceredigion a Chaerfyrddin ynghyd â rhannau o Benfro, Powys, Conwy, Dinbych ac Afan-Nedd fel cymunedau Cymraeg  lle bo'r Gymraeg fod yn hanfodol i waith cyrff cyhoeddus. Hyd nes bod deddfwriaeth yn gorfodi Awdurdodau i wneud penderfyniadau o'r fath, byddwn fel cymdeithas yn ymgyrchu i bwyso ar gyrff cyhoeddus yn y cymunedau Cymraeg i gymryd penderfyniad o'u gwirfodd i wneud y Gymraeg yn brif iaith ac yn hanfodol i'w gwaith gyda chyfieithu rhesymol ar gyfer trigolion di-Gymraeg gyda llywodraeth ganolog yn cyfrannu at gost y cyfieithu fel rhan o wariant ar y Saesneg.

***Pa Gyrff Cyhoeddus ?***

Disgwyliwn i'r holl gyrff cyhoeddus sy'n weithredol yn ein cymunedau Cymraeg i wneud y Gymraeg yn hanfodol i'w holl waith. Golygir:

- Cynghorau Sir – naill ai'n gyfangwbl neu swyddfeydd ardal penodedig
- Sefydliadau Addysg
- Asiantaethau Cyhoeddus
- Adrannau Llywodraeth

Derbyniwn y bydd hyn yn creu cryn anhawster i lawer o gyrff sy'n cael eu gweinyddu'n ganolog – fel Heddlu Gogledd Cymru, er enghraifft, ond credwn y bydd hwn yn ymarferiad da i sicrhau fod cyrff cyhoeddus yn ymatebol i gymunedau lleol yn lle canoli'n fwyfwy ar reolaeth. Bydd angen amser a dyfeisgarwch i weithredu'r egwyddor mewn rhai sefyllfaoedd lle bydd yn hawdd mewn cyd-destunau eraill.

***Trawsnewid***

Gallai cyrff cyhoeddus mewn nifer o ardaloedd (yn enwedig yng Ngwynedd) ac mewn nifer o feysydd (yn enwedig addysg) gael trawsnewidiad buan i fod yn gyrff sy'n gweinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn ardaloedd a sefyllfaoedd eraill hyd yn oed yn ein cymunedau Cymraeg, byfdd angen gosod targed ac amserlen rhesymol i gyflawni'r trawsnewidiad. Yr hyn sydd bwysig yw eu bod nhw ar y ffordd tuag at wneud y Gymraeg yn hanfodol a bod pawb yn deall y cyfeiriad. Disgwyliwn y bydd gweithredu Deddf Iaith newydd yn cadarnhau'r Gymraeg trwy Gymru fel bod cymunedau eraill yn cychwyn ar hyd y ffordd.

***Deddf Iaith Newydd***

Mae'r Gymdeithas yn ymgyrchu am Ddeddf Iaith newydd a fydd yn gosod safon cenedlaethol trwy Gymru o ran defnydd o'r Gymraeg gan gyrff yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Ar ben hyn, yr ydym yn galw nawr am wneud y Gymraeg yn brif iaith hanfodol i'n holl gyrff cyhoeddus yn ein cymunedau Cymraeg, ac y mae ein gofynion am Ddeddf Iaith newydd yn agor y ffordd am ddatblgyiadau o'r fath. Yn ganolog mae'r Gymdeithas yn ymgyrchu am Ddeddf Iaith newydd ac, ar ben hyn, bydd y Gymdeithas yn galw ar gyrff cyhoeddus yn ein cymunedau Cymraeg i symud yn syth at wneud y Gymraeg yn hanfodol i'w holl waith.

cymdeithas yr IAITH gymraeg

*Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Llawr Gwaelod, Pen Roc, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ*
*Ffôn: 01970 624501 – Ffacs: 01970 627122 – E-bost cyffredinol: swyddfa@cymdeithas.com*